sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

# Strategaeth ar gyfer Rheoli Glaswelltir i Bryfed Peillio ar Ystâd Cyngor Sir Caerfyrddin 2024-29




## Lle a Seilwaith
## Gorffennhaf 2024

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Cynnwys

**1. CRYNODEB GWEITHREDOL........................................................................3**

1.1. Y Cefndir 7

1.2. Mae mannau gwyrdd o ansawdd da yn darparu buddion di-r................................................9

**2. Polisi Cefndirol a'r Fframwaith Strategol..................................................................12**

**3. Y dull polisi newydd.......................................................................................16**

3.1. Yr Amcanion Strategol.........................................................................................16

3.2. Gweithredu.............................................................................................................20

**4. Gweithredu a Monitro.........................................................................................24**

4.1. Adnoddau...............................................................................................................24

## Sylwer mai fersiwn ddrafft yw'r Strategaeth hon

# Byrfoddau

| | |
|---|---|
| **CSC** | Cyngor Sir Caerfyrddin (cyfeirir ato hefyd fel y 'Cyngor) |
| **SGG** | Seilwaith Gwyrdd a Glas |
| **CNC** | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| **PCC** | Polisi Cynllunio Cymru |
| **LlC** | Llywodraeth Cymru |

# 1. CRYNODEB GWEITHREDOL

Nod y Strategol arfaethedig ar gyfer Rheoli Glaswelltir i Bryfed Peillio ar Ystâd Cyngor Sir Caerfyrddin yw:

**• gwneud y mwyaf o arwynebedd ac ehangder cynefin glaswelltir llawn blodau gwyllt a reolir gan y Cyngor ar laswelltir amwynder*.**

Byddwn yn gwneud hyn drwy:

**• addasu ein cyfundrefnau torri,**

**• torri glaswellt a chael gwared ar y toriadau i leihau ffrwythlondeb a, thros amser, lleihau faint o laswellt sydd i'w dorri.**

(DS Os ydym yn lleihau faint y mae glaswellt yn tyfu yn y lle cyntaf, mae gennym lai i'w dorri a ddylai, dros amser, leihau costau)




Paratowyd y Strategaeth mewn ymateb i **Ddatganiad Gweledigaeth y Cyngor ar gyfer 2022–27**, sy'n amlinellu man cychwyn uchelgeisiau'r Cyngor dros y 5 mlynedd nesaf. Mae hyn yn cynnwys gweledigaeth i:

Gynyddu bioamrywiaeth yr holl dir sy'n eiddo i'r Cyngor, a chydnabod y gydberthynas gref rhwng newid yn yr hinsawdd, colli bioamrywiaeth a llesiant pobl. Ystyried defnyddio tir Cyngor Sir Caerfyrddin i greu cynefinoedd blodau gwyllt a phryfed peillio, gan gynnwys ochrau ac ymylon ffyrdd. Ni allwn ddatrys bygythiadau newid yn yr hinsawdd o achos gweithgarwch dynol ar yr un llaw a cholli bioamrywiaeth ar y llaw arall. Rydym naill ai'n datrys y ddau beth neu ddim un ohonynt.

*** DS** Nid yw'n cwmpasu rheoli glaswelltir ar ymylon ffyrdd, parciau gwledig, neu ffermydd y cyngor sydd wedi'u rhentu gan denantiaid, sy'n cael eu rheoli gan adrannau eraill, e.e. Priffyrdd, Hamdden Awyr Agored, tenantiaid y Cyngor.

Mae hefyd yn adlewyrchu Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Caerfyrddin 2022–27 Amcan Llesiant 3-9

*"Mae amgylchedd naturiol bioamrywiol yn dda ar gyfer llesiant, gydag ecosystemau iach a gweithredol, sy'n cefnogi cadernid cymdeithasol, economaidd ac ecolegol."*

## Rhagair gan y Cynghorydd Aled Vaughan Owen, yr Aelod Cabinet Dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn chwarae rhan bwysig wrth i ni fynd i'r afael â bygythiadau argyfwng hinsawdd a natur. Wrth i ni gychwyn ar y daith hon, rydym yn cydnabod y rôl hanfodol y mae glaswelltiroedd yn ei chwarae yn ein hamgylchedd, ein diwylliant a'n llesiant Mae'r Strategaeth hon yn adlewyrchu ein hymrwymiad i wella'r glaswelltiroedd amwynder yr ydym yn eu rheoli ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Drwy feithrin arferion rheoli cynaliadwy, ymgysylltu â'n cymunedau, a chroesawu arloesedd, rydym yn ceisio creu dyfodol mwy gwyrdd a mwy cadarn i'n sir. Gyda'n gilydd, gallwn feithrin ecosystemau ffyniannus – hyd yn oed yn ein hardaloedd trefol - dathlu ein treftadaeth naturiol gyfoethog, ac adeiladu etifeddiaeth o gytgord rhwng pobl a natur.

| | |
|---|---|
| **Cymeradwywyd** | <br>Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd |

## Rhagair y Cyfarwyddwr

Wrth fabwysiadu *Strategaeth ar gyfer Rheoli Glaswelltir i Bryfed Peillio ar Ystâd Cyngor Sir Caerfyrddin 2024-29,* bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn dangos ei ddealltwriaeth o'r angen i ymateb i'r Argyfwng Natur a ddatganwyd gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru, a'i ymrwymiad i gyflawni Datganiad Gweledigaeth y Cabinet:

*Cynyddu bioamrywiaeth yr holl dir sy'n eiddo i'r Cyngor, a chydnabod y gydberthynas gref rhwng newid yn yr hinsawdd, colli bioamrywiaeth a llesiant pobl. Ystyried defnyddio tir Cyngor Sir Caerfyrddin i greu cynefinoedd blodau gwyllt a phryfed peillio, gan gynnwys ochrau ac ymylon ffyrdd. Ni allwn ddatrys bygythiadau newid yn yr hinsawdd o achos gweithgarwch dynol ar yr un llaw a cholli bioamrywiaeth ar y llaw arall. Rydym naill ai'n datrys y ddau beth neu ddim un ohonynt.*

Bydd hefyd yn cyflawni ei ddyletswydd o dan Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cadernid ecosystemau.

Mae cyflawni'r Strategaeth hon yn golygu y byddwn yn gwneud newidiadau yn y modd yr ydym yn rheoli glaswelltir amwynder ar dir y cyngor. Bydd mabwysiadu technegau torri sy'n addas i bryfed peillio lle bo hynny'n briodol, mewn glaswelltiroedd amwynder, megis y toriad neithdar bob 6 wythnos a fwriadwyd i alluogi pryfed peillio i ddefnyddio'r planhigion blodeuol, yn golygu newid dull ac rydym yn cydnabod hynny. Bydd angen i ni ddehongli a chyfleu'r dull newydd hwn i'r rheiny sy'n mwynhau'r ardaloedd hyn.

Fel Cyfarwyddwr Lle a Seilwaith rwyf yn cymeradwyo'r camau gweithredu sydd yn y Strategaeth ac yn rhoi fy sêl bendith arnynt i'w cyflawni. Bydd cyflawni'r Strategaeth yn golygu bod ein glaswelltiroedd amwynder yn cynnal mwy o bryfed peillio, yn fwy bioamrywiol, ac o gymorth i adfer natur.

| | |
|---|---|
| **Cymeradwywyd** | <br>Cyfarwyddwr, Lle a Seilwaith |

## 1.1. Y CEFNDIR

**1.1.1.** Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae colli cynefinoedd glaswelltir blodau gwyllt a'r pryfed peillio y maent yn eu cynnal wedi dod yn destun cryn bryder ar draws y DU. Mae gan laswelltiroedd amwynder sy'n eiddo cyhoeddus gryn botensial fel cynefinoedd llawn blodau gwyllt a all gyfrannu at ailgysylltu ac adfer bioamrywiaeth glaswelltiroedd. Gan fod yr ardaloedd hyn mewn yng ngolwg y cyhoedd, maent hefyd yn cynnig cyfleoedd i godi ymwybyddiaeth, ac i gynnwys y gymuned leol wrth gefnogi gweithredu dros fioamrywiaeth. Bydd yr ardaloedd hyn, os cânt eu rheoli gyda golwg ar fioamrywiaeth, hefyd yn cefnogi ein llesiant a'r agenda creu lleoedd.

**1.1.2.** Glaswelltir wedi'i dorri'n fyr wedi'i fwriadu at ddefnydd hamdden sydd wedi bod yn brif ddull o reoli glaswelltir ar ystâd werdd y Cyngor, ond mae o fudd cyfyngedig i fioamrywiaeth. Mae angen glaswelltir wedi'i dorri'n rheolaidd ar gyfer lleiniau chwaraeon ac ardaloedd y gwneir defnyddir trwm ohonynt, ond mewn mannau eraill gallai amrywiaeth o ddulliau rheoli fod o fudd i fioamrywiaeth ac i breswylwyr/defnyddwyr. Dyma un o'r ffactorau sy'n gyrru rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru a'u mentrau Iddyn Nhw a Caru Gwenyn.

**1.1.3.** Mae'r Strategaeth hon yn nodi gweledigaeth, wedi'i hategu gan bolisïau perthnasol, ynglŷn â sut a pham y bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn rheoli'r glaswelltir amwynder y mae'n gyfrifol amdano. Wrth gyflawni'r Strategaeth bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn chwarae ei ran wrth liniaru'r Argyfyngau Natur a Newid Hinsawdd a ddatganwyd ganddo a Llywodraeth Cymru. Bydd cyflawni'r Strategaeth arfaethedig yn llwyddiannus hefyd yn gwireddu'r buddion niferus eraill a ddaw yn sgil glaswelltir amwynder o ansawdd da.

**1.1.4.** Mae newid y modd yr ydym yn rheoli ein hardaloedd o laswelltir amwynder yn gam allweddol y gallwn ni ei gymryd i helpu i fynd i'r afael â'r **Argyfyngau Natur a Hinsawdd,** a ddatganwyd gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Sir Caerfyrddin.

**1.1.5.** Bydd cyflawni'r Strategaeth yn gofyn am ymrwymiad a chyfranogiad llawer o swyddogion Cyngor Sir Caerfyrddin ar draws gwahanol adrannau a meysydd gwasanaeth. Meysydd gwasanaeth sy'n gyfrifol am reoli tir - gan gynnwys ysgolion, meysydd chwaraeon, tai, canolfannau dydd, cartrefi gofal, eiddo ac ardaloedd gwasanaeth sydd â chyfrifoldebau am ddatblygu cynlluniau a phrosiectau ar dir a sicrhau grantiau. Mae gan bob maes gwasanaeth rôl i'w chwarae, megis Rheoli Datblygu, sydd â rôl reoleiddiol. Gall cyflawni'r Strategaeth herio arferion rheoli tir sefydledig, ond mae newid yn hanfodol os ydym am fynd i'r afael â'r argyfyngau Natur a Hinsawdd, ac os ydym am fwynhau'r buddion niferus y gall glaswelltir amwynder o ansawdd da eu darparu. Bydd y Strategaeth hon, sy'n seiliedig ar bolisi ar gyfer

rheoli ein glaswelltir amwynder, yn cael ei hintegreiddio i'r gwaith Seilwaith Gwyrdd a Glas a ddatblygir gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

***1.1.6.*** Paratowyd y Strategaeth mewn ymateb i **Ddatganiad Gweledigaeth y Cyngor ar gyfer 2022**–27, sy'n amlinellu man cychwyn uchelgeisiau'r Cyngor dros y 5 mlynedd nesaf. Mae hyn yn cynnwys gweledigaeth i:

Gynyddu bioamrywiaeth yr holl dir sy'n eiddo i'r Cyngor, a chydnabod y gydberthynas gref rhwng newid yn yr hinsawdd, colli bioamrywiaeth a llesiant pobl. Ystyried defnyddio tir Cyngor Sir Caerfyrddin i greu cynefinoedd blodau gwyllt a phryfed peillio, gan gynnwys ochrau ac ymylon ffyrdd. Ni allwn ddatrys bygythiadau newid yn yr hinsawdd o achos gweithgarwch dynol ar yr un llaw a cholli bioamrywiaeth ar y llaw arall. Rydym naill ai'n datrys y ddau beth neu ddim un ohonynt.

***1.1.7.*** Mae hefyd yn adlewyrchu Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Caerfyrddin 2022–27 Amcan Llesiant 3-9

*"Mae amgylchedd naturiol bioamrywiol yn dda ar gyfer llesiant, gydag ecosystemau iach a gweithredol, sy'n cefnogi cadernid cymdeithasol, economaidd ac ecolegol. "*

**1.1.8.** Mae'r Strategaeth hon wedi'i chyfyngu i dir sy'n eiddo i Gyngor Sir Caerfyrddin neu a reolir ganddo.

**1.1.9.** Mae newid y modd yr ydym yn rheoli ein glaswelltir amwynder yn gam allweddol y gallwn ni ei gymryd i helpu i fynd i'r afael â'r **Argyfyngau Natur a Hinsawdd**, a ddatganwyd gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Sir Caerfyrddin.

**1.1.10.** Mae'n bwysig sylweddoli nad yw'r dull o reoli glaswelltir ar gyfer pryfed peillio yn ymwneud â chefnu ar safle neu arbed arian. Mae angen rheolaeth weithredol er mwyn i flodau gwyllt brodorol a'u pryfed peillio ffynnu fel rhan o reoli ein mannau gwyrdd amwynder.

**1.1.11. Nid** yw'n gynllun ychwaith i hau hadau blodau gwyllt unflwydd cymysg. Efallai y bydd blodau unflwydd cymysg yn edrych yn lliwgar, ond mae ganddynt anfanteision. Weithiau cânt eu galw yn 'flodau gwyllt' ond yn aml maent yn rhywogaethau anfrodorol. Gallant fod yn ddrud i'w prynu, mae angen gwaith i edrych ar eu hôl ac efallai y bydd angen eu hau bob blwyddyn. Defnyddir chwynladdwyr yn aml i glirio ardaloedd cyn hau. Nid yw hau'r cymysgeddau hyn yn gwneud fawr ddim i warchod ein blodau gwyllt brodorol. Nid ydynt yn cefnogi'r ystod eang o infertebratau sy'n bwydo ar flodau gweirgloddiau brodorol. Ein nod yw annog y banc hadau brodorol i ffynnu trwy newid mewn rheolaeth. Dyma'r dull mwyaf cynaliadwy o gynyddu arwynebedd ac ehanger glaswelltiroedd blodau gwyllt yn Sir Gaerfyrddin.

**1.1.12.** Mae'r cynllun yn adlewyrchu'r ffaith bod glaswelltir dan reolaeth dda yn darparu nifer o fuddion:

- Gwella ein seilwaith gwyrdd i'r cyhoedd
- Lleihau ein hôl troed carbon
- Gwneud yr amgylchedd lleol yn fwy cryf.

**1.1.13.** Cynghorir bod y Strategaeth yn cael ei hadolygu yn 2028.

## 1.2. Mae mannau gwyrdd o ansawdd da yn darparu buddion di-ri

**1.2.1.** Mae glaswelltiroedd a reolir ar gyfer pryfed peillio yn cyfrannu at Seilwaith Gwyrdd o ansawdd da ac yn rhoi llawer o fuddion i ni. Maent yn creu ymdeimlad o le, yn cyfrannu at ein llesiant ac yn elfennau allweddol o fentrau Seilwaith Gwyrdd.

**1.2.2. Canfyddiad y cyhoedd.** Mae cydweithio diweddar rhwng Prifysgol Bangor a Chanolfan Ecoleg a Hydroleg y DU (UKCEH) wedi dangos bod y rhan fwyaf o bobl eisiau mwy o fyd natur, megis coed a blodau gwyllt, yn eu trefi a'u dinasoedd. Gweithiodd y tîm mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ddinbych i asesu canfyddiadau'r gymuned o newidiadau amgylcheddol sy'n digwydd yn nhref arfordirol Y Rhyl yng Ngogledd Cymru, a chynhaliodd arolwg hefyd o 1866 o bobl ar draws y DU i gasglu eu barn am blannu coed a sefydlu dolydd blodau gwyllt. Dangosodd y canlyniadau fod 73% o bobl eisiau mwy o goed, a bod 75% eisiau mwy o ddolydd blodau gwyllt. Byddai'r rhan fwyaf o bobl yn croesawu mwy o goed a dolydd blodau gwyllt yn eu trefluniau | Prifysgol Bangor

Dangosodd astudiaeth yn swydd Sussex fanteision llai o dorri gwair mewn parc cyhoeddus – roedd mwy o helaethrwydd o flodau a phryfed sy’n ymweld â blodau a dywedodd 97% o’r ymwelwyr â’r parc bod yn well ganddynt annog pryfed a blodau gwyllt (Insect Conservation and Diversity 8(2):107-119).

**1.2.3. Cefnogi infertebratau.** Efallai bod glaswellt a dorrir yn rheolaidd ac yn fyr yn edrych yn 'daclus' ond nid yw o lawer o fudd i fywyd gwyllt. Bydd glaswellt a dorrir yn llai aml yn dal yn eithaf byr ond bydd yn caniatáu i blanhigion flodeuo er mwyn darparu bwyd ar gyfer pryfed peillio megis ieir bach yr haf, pryfed hofran, chwilod a gwenyn. Mae glaswellt a reolir fel dôl yn darparu bwyd a lloches i amrywiaeth o fywyd gwyllt. (PDF) Mae ardaloedd bach o laswelltir

blodau gwyllt mewn ardaloedd trefol yn cynnal cyfoeth rhywogaethau sylweddol a digonedd o bryfed peillio (researchgate.net)



Parc Howard – ardal a reolir ar gyfer pryfed peillio gan ddefnyddio toriad dôl sy'n dangos y cyferbyniad rhwng glaswelltir a dorrir ddwywaith y flwyddyn a glaswelltir a dorrir yn rheolaidd.

**1.2.4. Newid yn yr hinsawdd a llifogydd.** Mae planhigion yn amsugno carbon o'r atmosffer. Mae torri glaswellt yn llai aml yn caniatáu i blanhigion dyfu systemau gwreiddiau mwy, gan storio mwy o garbon yn y pridd. Mae systemau gwreiddiau gwell yn cynyddu awyriad y pridd, sy'n cynyddu faint o ddŵr a gaiff ei storio ac sydd felly yn helpu i leihau llifogydd. its-for-them-frequently-asked-questions-a-5-leaflet.docx (live.com)





Diagram sy'n dangos strwythur pridd rhwng ardaloedd a dorrir yn rheolaidd ac ardaloedd a reolir yn llai dwys. (O wefan Natur Wyllt) Sir Fynwy)

**1.2.5.** Mae pryfed peillio yn peillio llawer o gnydau fferm yr ydym yn eu bwyta. Maent yn peillio planhigion gwyllt i gynhyrchu hadau, ffrwythau a chnau y mae adar a mamaliaid yn eu bwyta. Maent yn hanfodol ar gyfer cynnal cynhyrchiant bwyd. Mae llawer o bryfed peillio gwyllt yn lleihau mewn nifer, yn bennaf oherwydd colli cynefin. Mae angen blodau ar bryfed peillio i fwydo ohonynt, cael llefydd i fyw ynddynt a dodwy wyau, a lloches i'w rhai ifanc i ddatblygu. Mae gwenyn mêl hefyd yn bryfed peillio. Yng Nghymru maent yn rhywogaeth sydd dan reolaeth i raddau helaeth ac nid ydynt yn dirywio.

**1.2.6. Pobl a Lleoedd.** Gall cysylltu â bywyd gwyllt fod o fudd i'n hiechyd a'n llesiant meddyliol gan wneud i ni deimlo'n fwy tangnefeddus, yn hapusach a chyda mwy o ffocws. Mae creu mwy o ardaloedd tebyg i ddôl yn ein galluogi i gael profiad o fyd natur o ddydd i ddydd.

**1.2.7.** Mae cynefinoedd llawn blodau yn gwneud llefydd gwych i fyw, gweithio ac ymweld â nhw - mae twristiaeth yn Sir Gaerfyrddin yn ddibynnol ar amgylchedd naturiol cyfoethog ac amrywiol. Mewn ardaloedd adeiledig mae 'Seilwaith Gwyrdd' cadarn gyda phlanhigion blodeuol lliwgar yn ychwanegu at y profiad o fyw a gweithio yno. Mae ymchwil helaeth yn dangos y buddion sydd gan fannau naturiol a reolir yn dda i iechyd a llesiant meddyliol e.e. *Urban Ecosystems* **cyfrol 21,** tudalennau875–886 (2018). The role of managed natural

spaces in connecting people with urban nature: a comparison of local user, researcher, and provider views | SpringerLink

# 2. Polisi Cefndirol a'r Fframwaith Strategol

**2.1.1.** Bydd cyflawni'r camau gweithredu yn mynd i'r afael â gwahanol gyfrifoldebau ac agendâu.

**2.1.2. Polisi a Deddfwriaeth Cymru**

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 - cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer ein swyddogaethau'n briodol ac wrth wneud hynny hyrwyddo cadernid ecosystemau.
- Polisi Cynllunio Cymru (PCC) 11, a'r fersiwn ddiweddaraf o hyn i'w chyhoeddi yn 2023, PCC12 – gan gyfeirio at Bennod 6 ac at Seilwaith Gwyrdd a Glas.
- Ymgyrch Llywodraeth Cymru Iddyn nhw - Newid arferion torri gwair i achub bywyd gwyllt i ymgysylltu â phreswylwyr lleol a grwpiau cymunedol am newidiadau i arferion torri.
- Rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru sef Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru a menter Llywodraeth Cymru Caru Gwenyn.
- Mae torri glaswelltiroedd amwynder hefyd yn ein helpu i gydymffurfio â dyletswydd bioamrywiaeth a chadernid ecosystemau adran 6, a gyflwynwyd o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (llythyr at arweinwyr Julie James AS/Aelod o'r Senedd, y Gweinidog dros Newid Hinsawdd ar 15 Mehefin 2023).

**2.1.3. Sir Gaerfyrddin**

- Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus) ac Amcan Llesiant 3 Cyngor Sir Caerfyrddin - Galluogi ein cymunedau a'n hamgylchedd i fod yn iach, yn ddiogel ac yn llewyrchus (Cymunedau Ffyniannus) a'r flaenoriaeth thematig: Datgarboneiddio a'r Argyfwng Natur (gan gynnwys 'mynd i'r afael â'r materion sy'n gyrru dirywiad yn ein bioamrywiaeth ac yn cefnogi adferiad natur'). Byddai hefyd yn cyfrannu at Gynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Sir Gaerfyrddin.

| | |
|---|---|
| ***Cymru lewyrchus*** | **Mae pryfed peillio yn dda i'n heconomi.** Amcangyfrifir bod gwerth peillio i amaethyddiaeth yn y DU yn £690 miliwn. Pe baem yn peillio cnydau â llaw byddai'n costio £1.8 biliwn - gan wneud ein biliau bwyd yn llawer uwch nag y |

| | |
|---|---|
| | maent ar hyn o bryd. Yn fyd-eang, mae'r boblogaeth gwenyn mêl yn unig yn werth £30 biliwn.<br><br>Cyfoeth Naturiol Cymru / Caru Peillwyr<br><br>Y Wenynen Fêl Ewropeaidd yw'r prif bryf peillio a reolir sydd ar gael ar gyfer cnydau caeau ac awyr agored. Roedd oddeutu 700 gwenynfa (lle sy'n cadw cychod gwenyn) yn Sir Gaerfyrddin yn 2021, a oedd yn cynnwys rhyw 3000 o gychod gwenyn. Ar sail cyfartaledd y cynhyrchiant mêl fesul cwch gwenyn yng Nghymru yn 2021 o 19kg/cwch gwenyn, byddai hyn yn gyfwerth â chynhyrchiant mêl o ryw 57 tunnell, gyda gwerth amcanol o £456 (cyfathrebiadau personol yr Arolygydd Gwenyn Rhanbarthol). |
| ***Cymru gydnerth*** | Bydd cynefinoedd naturiol amrywiol â phoblogaethau iach o bryfed peillio'n helpu ein hamgylchedd naturiol i fod yn fwy cydnerth yn wyneb newid ac yn parhau i ddarparu gwasanaethau pryfed peillio allweddol bwysig ar ein cyfer. |
| ***Cymru iachach*** | Mae adnoddau naturiol yn gwneud cyfraniad sylweddol at iechyd corfforol a lles meddyliol pobl yng Nghymru. Mae mynediad at natur a mannau gwyrdd yn cael effeithiau cadarnhaol ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl. |
| ***Cymru sy'n fwy cyfartal*** | Mae mynediad cyfartal at ecosystemau sy'n darparu gwasanaethau diwylliannol yn cyfrannu at gydraddoldeb yng Nghymru. Bydd mynediad lleol at fannau gwyrdd o ansawdd da o fudd i'n dinasyddion. |
| ***Cymru o gymunedau cydlynus*** | Dangoswyd fod cynnwys cymunedau yn y gwaith o reoli eu parciau a'u coetiroedd lleol yn gwella cydlyniant cymunedol ac yn lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol. |
| ***Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu*** | Mae ein cynefinoedd amrywiol a'r ystod o rywogaethau ynddynt wedi cyfrannu at dirwedd yn Sir Gaerfyrddin sydd wedi bod â rôl arwyddocaol o ran datblygu diwylliant arbennig megis celf a llenyddiaeth lleol-benodol ac enwau llefydd nodedig Cymreig. |

| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** | Mae'r amgylchedd yn cyflenwi ein holl adnoddau materol, ond rhaid i ni sicrhau mai dim ond ein cyfran deg a ddefnyddir gennym. |
|---|---|

- Blaengynllun Deddf yr Amgylchedd Cyngor Sir Caerfyrddin 2023-2025
- Datganiad Gweledigaeth Cabinet Cyngor Sir Caerfyrddin 2022–27
- Datganiad gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Sir Caerfyrddin o Argyfwng Hinsawdd a Natur, a'r rôl sydd gan ein cynefinoedd wrth liniaru newid yn yr hinsawdd a darparu cyfleoedd ar gyfer Adfer Natur.
- Bydd yn cyfrannu at **Strategaeth Trawsnewid y Cyngor 2022-27** a bydd yn fecanwaith i weithredu rhaglen i gyflawni'r newid i Sero Net erbyn 2030 a mynd i'r afael â'r Argyfwng Natur. Mae'r amcanion allweddol yn cynnwys:

- Cefnogi'r gwaith o adnabod a chyflawni arbedion carbon a chamau gwella natur ar lefel gorfforaethol a gwasanaethau unigol.
- Gweithredu'n hyrwyddwyr ar gyfer datgarboneiddio a chyfoethogi bioamrywiaeth mewn cynlluniau, rhaglenni, prosiectau ac ymyriadau eraill a wneir mewn gwasanaethau unigol.
- Adnabod cyfleoedd ar gyfer arbedion carbon trwy gynllunio, datblygu a darparu gwasanaethau.

**2.1.4.** Er mai ar gyfer y Cyngor y mae'r Strategaeth hon, gallai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Cynghorau Cymuned a datblygiadau partneriaethau strategol a gyflawnir gan y Cyngor ei mabwysiadu'n hwylus. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i arwain yn y maes hwn a bydd yn cydweithio i rannu'r hyn y mae wedi'i ddysgu a'i arferion gorau i gefnogi sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus i fabwysiadu dull tebyg.

## 2.2. Rheolaeth bresennol

**2.2.1.** Mae'r rhan fwyaf o drefniadau torri glaswellt y Cyngor yn seiliedig ar lefelau cynnal a chadw hanesyddol ond nid ydynt wedi'u diffinio gan ofyniad polisi neu ddeddfwriaethol penodol. Caiff glaswellt amwynder ei dorri yn ôl amserlen bob 14 diwrnod rhwng mis Mawrth a mis Tachwedd. Mae'r rhan fwyaf o laswellt mewn ardaloedd trefol yn cael ei dorri mor aml â hyn am resymau esthetig.

**2.2.2.** Mae'r tîm Cynnal a Chadw Tiroedd yn ymgymryd â gwaith cynnal a chadw tir o fewn eu portffolio eu hunain yn ogystal ag yn rhinwedd 'Contractwr' ac mae ganddynt Gytundebau

Lefel Gwasanaeth gyda 'chleientiaid', e.e. Tai, Eiddo ac Addysg lle cynigir y presgripsiwn canlynol ar hyn o bryd:

**Torri a Gadael y Toriadau** – Torri'r glaswellt 15mm – 30mm ar bob ardal amwynder gan adael y toriadau ar y ddaear. Cyn torri'r glaswellt dylid clirio pob sbwriel, gwydr, tuniau, cerrig, baw anifeiliaid a malurion eraill oddi ar y safle a fydd yn cael eu gwaredu i safle gwaredu cymeradwy.

A

**Torri a chasglu** - Torri glaswellt 15mm – 30mm ar bob ardal amwynder gan godi'r toriadau oddi ar y safle i'w gwaredu mewn safleoedd tirlenwi lleol. Cyn torri'r glaswellt dylid clirio pob sbwriel, gwydr, tuniau, cerrig, baw anifeiliaid a malurion eraill oddi ar y safle a fydd yn cael eu gwaredu i safle gwaredu cymeradwy. Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth hwn wedi'i gyfyngu i Gyfadeiladau Henoed yn unig.

**2.2.3.** Gyda'i gilydd, mae'r tîm Cynnal a Chadw Tiroedd yn torri tua 280 Ha* o laswellt yn y sir, gan gynnwys:

• yr holl ardaloedd tai ar draws y sir,

63 o ysgolion (hanner yr holl ysgolion yn y sir),

• yr holl feysydd parcio a gaiff eu rhedeg gan y sir (tua 50) ac ystadau diwydiannol (tua 20), y rhan fwyaf o adeiladau cyhoeddus (tua 12, e.e. Canolfan y Goleudy, ac ati.)

• parciau (DS mae gan rai cynghorau cymuned gyfrifoldeb am barciau erbyn hyn ond gallant ddefnyddio Cyngor Sir Caerfyrddin i'w rheoli os nad oes ganddynt eu timau/contractwyr eu hunain), a

• gwaith ar gyfer Priffyrdd.

*DS. Mae'r maes hwn yn fras ac yn cael ei adolygu, ac mae'n debygol y bydd yn rhaid ei addasu i fyny.

**2.2.4.** Mae gan y tîm cynnal a chadw tiroedd amrywiaeth o beiriannau i dorri glaswellt. Yn 2021 gwnaeth yr Adran Gadwraeth gais i Lywodraeth Cymru am arian grant o dan y grant Lleoedd Lleol ar gyfer Natur ar gyfer prynu peiriannau torri a chasglu i'w tywys gan dractorau i ychwanegu hyblygrwydd i'r gwasanaeth torri glaswellt y mae'r tîm Cynnal a Chadw Tiroedd yn ei ddarparu ac i helpu i gyflawni prosiect i reoli nifer fach o safleoedd ar draws ystâd Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer pryfed peillio i geisio dangos y potensial am reoli safleoedd yn wahanol a logisteg gwneud hynny.

**2.2.5.** Yn 2023 rhoddodd Llywodraeth Cymru, o dan yr un grant, gymeradwyaeth i brynu dau beiriant torri a chasglu 'ride on' fel bod un gan bob depo Cynnal a Chadw Tiroedd, ynghyd â threlars ar gyfer hwyluso cludiant ar draws yr ystâd.

**2.2.6.** Yn 2024 mae tua 37 o safleoedd bellach yn cael eu rheoli gan Cynnal a Chadw Tiroedd dan reolaeth Neithdar neu reolaeth Dôl, gyda'r nod o gynyddu'r rhain i isafswm o 74 erbyn diwedd y flwyddyn. Nid yw hyn yn cynnwys safleoedd sy'n cael eu rheoli gan Hamdden Awyr Agored, e.e. ardaloedd o fewn Parc Arfordirol y Mileniwm

# 3. Y dull polisi newydd

## 3.1. Yr Amcanion Strategol

**3.1.1.** Cydnabyddir bod angen glaswelltir wedi'i dorri'n rheolaidd ar gyfer lleiniau chwaraeon ac ardaloedd y gwneir defnyddir trwm ohonynt, ond mewn mannau eraill gallai amrywiaeth o ddulliau rheoli fod o fudd i fioamrywiaeth ac i breswylwyr/defnyddwyr. Wrth reoli ein hardaloedd glaswelltir ar gyfer bioamrywiaeth ac, yn benodol, ar gyfer pryfed peillio byddwn yn ystyried dull priodol o reoli glaswelltir yn seiliedig ar ddwy amserlen i wneud y gorau o fuddion rheoli glaswelltir.

### 3.1.2. Toriad neithdar



Ardaloedd Toriad Neithdar ble mae uchder glaswellt ychydig yn uwch yn ddymunol, gan ganiatáu i blanhigion blodeuol byr flodeuo a mynd i had.

- Bydd safleoedd dynodedig yn cael eu torri ar **gylch 6 wythnos**, gan ganiatáu i blanhigion blodeuol byr gwblhau eu cylch blodeuo llawn a chynyddu'r neithdar sydd ar gael i bryfed.
- Uchder torri: caiff y llafn ei osod ar uchder sy'n caniatáu i blanhigion isel sydd yn eu blodau basio o dan lafnau – 2.5-5 cm.
- Cadw golwg 'dan reolaeth' wrth ymyl llwybrau drwy dorri **ystod 1m** o laswellt byr ochr yn ochr ag ymyl unrhyw lwybr.

- Mae'r dull rheoli yn golygu y bydd rhai rhywogaethau blodeuol yn dal i gael eu torri ond, dros y tymor, bydd yn dal i fod yn fudd net i bryfed peillio.
- Bydd y **toriadau** yn cael eu casglu i leihau cynnwys maethol y pridd. Bydd hyn yn annog planhigion blodeuol ac yn ceisio atal glaswellt toreithiog.
- **Naill ai** mae'r toriadau'n cael eu cludo o'r safle i safle gwastraff gwyrdd, yn cael eu gadael fel pentyrrau cynefin *os* gellir dod o hyd i leoliadau addas ar y safle, neu mewn safleoedd compostio a grëwyd ar y safle sy'n addas i raddfa'r safle.




Cyfleusterau compostio posibl y gellid eu cyflwyno ar y safle




Toriadau o doriad a chasglu A Grillo yn cael eu gadael fel pentwr cynefin ar y safle (O Gyngor Swydd Dorset)

### 3.1.3. Toriad Dôl

- Safleoedd / ardaloedd cytunedig i'w rheoli fel dolydd – a'u torri ddwywaith y flwyddyn ym mis Mawrth/Ebrill ac Awst/Medi.

- Cadw golwg 'dan reolaeth' wrth ymyl llwybrau drwy dorri **ystod 1m** o laswellt byr ochr yn ochr ag ymyl unrhyw lwybr.
- Os oes angen, torri llwybrau priodol drwy'r safle.
- Mae casglu'r toriadau yn rhan hanfodol o'r broses. Mae'n cael gwared ar faetholion, yn gostwng ffrwythlondeb y pridd ac yn atal haen o laswellt marw sy'n atal tyfiant hadau blodau gwyllt. Dros amser, mae canran y glaswellt yn gostwng a bydd canran y blodau gwyllt yn cynyddu.





Rheolaeth dôl - Llandybie

- Bydd lleiniau gwelededd ac ystodau helaeth ochr yn ochr â llwybrau a ffyrdd yn parhau i gael eu torri'n fwy rheolaidd.
- Gall hyd yn oed glaswelltir sydd ag ychydig o flodau gwyllt fynd yn fwy amrywiol dros amser wrth reoli bioamrywiaeth pan fydd y glaswellt yn cael ei dorri a'i gasglu.
- Mewn rhai achosion, nid oes angen torri a chasglu'r glaswellt blodau gwyllt bob blwyddyn. Gall torri bob dwy flynedd sicrhau cynefin pryfed peillio hyd yn oed yn well a sicrhau bod rhai hadau blodau gwyllt ar gael i adar sy'n bwyta hadau fel bwyd dros y gaeaf.
- Bydd y safleoedd yn cael eu rheoli yn ôl yr arfer rhwng misoedd Medi a Mawrth.
- Bydd arwyddion yn cael eu gosod ar safleoedd:







Plannau Ar Gyfer Pryfed Peillio (Llywodraeth Cymru 2024)

**3.1.4.** Byddwn yn parhau i dorri'r ardaloedd canlynol yn fwy rheolaidd fel toriadau Amwynder:

- pob cae chwaraeon,
- ymylon ein llwybrau a llwybrau beicio a llwybrau tarw,
- llwybrau o fewn ardaloedd neithdar a dolydd, gan sicrhau bod yr ardaloedd hyn yn parhau i fod yn hygyrch i bobl, a'u galluogi i fwynhau'r ardaloedd hyn a'r byd natur y maent yn ei gynnal,
- ardaloedd sy'n dechnegol anaddas ar gyfer toriad neithdar neu ddôl oherwydd materion megis llethr, a draenio,
- tir i'w ddatblygu; tir sy'n cael ei reoli'n benodol ar gyfer datblygiad hyd nes y bydd y datblygiad yn dechrau.

**3.1.5.** Wrth wneud y newidiadau hyn, byddwn hefyd yn:

- rhoi'r gorau i dorri glaswellt o dan ganopi coed, oni bai bod llwybrau'n croesi'r ardaloedd hyn (fel uchod)



## 3.2. Gweithredu

**3.2.1.** Er mwyn cefnogi'r gwaith o reoli glaswelltir amwynder ar gyfer pryfed peillio, mae angen asesiad o'r ystâd laswelltir ar draws y sir o dan bortffolios amrywiol y cyngor. Bydd hyn yn helpu i nodi'r drefn rheoli glaswelltir briodol ar gyfer pob safle er mwyn gallu datblygu adroddiadau costio, adroddiadau meintiol, ac i gyd-fynd â'r rhaglen trawsnewid digidol rheoli tirwedd.

**3.2.2.** Disgwylir y bydd y Cyngor yn rheoli 100% o'i dir drwy un o'r dulliau hyn – rheolaeth amwynder, neithdar neu ddôl.

Bydd angen darparu tystiolaeth pam na fydd yr opsiynau ar gyfer pryfed peillio yn cael eu hystyried, e.e. diogelwch, dynol, technegol, economaidd.

Bydd swyddogion o fewn Cynnal a Chadw Tiroedd yn cynghori ar yr opsiynau ar gyfer pob ardal o laswelltir. Bydd y penderfyniadau yn seiliedig ar y safle gan fod pob safle a'i swyddogaeth yn wahanol.

**3.2.3.** Er mwyn gweithredu'r *Polisi* ar gyfer Pryfed Peillio yn llwyddiannus, bydd angen i adrannau unigol yn y Cyngor sydd â glaswelltir amwynder weithio gyda Cynnal a Chadw Tiroedd i:

• nodi safleoedd lle nad oes cyfyngiadau iechyd a diogelwch tra phwysig i newid y modd y rheolir glaswelltir.

• ar gyfer safleoedd tai, sicrhau bod newidiadau mewn rheoli glaswellt ac ymylon glaswellt yn cael eu cyfathrebu i denantiaid y cyngor a'u bod yn cael eu cefnogi'n gyffredinol ganddynt.

• dewis safleoedd y mae Cynnal a Chadw Tiroedd yn cytuno y gellir eu rheoli yn y ffordd a awgrymir.

• sicrhau bod gan safleoedd ardal angenrheidiol ar gyfer pentyrrau cynefin, y gallu i gompostio neu y gellir mynd â thoriadau i safle gwastraff gwyrdd lleol.

**Astudiaeth Achos**

Awgrymwyd yr ardal fawr o ofod gwyrdd ar Gae Heol Gwili, Llanelli gan swyddog tai Cyngor Sir Caerfyrddin '*Safle mawr - cyfle i ddefnyddio rhannau gyda llwybrau troed drwyddo*. Cysylltwyd â thenantiaid a'r Cynghorydd lleol. Cyflwynwyd 'Toriad Neithdar' (torri a chasglu bob 6 wythnos). Cludwyd y toriadau i safle gwastraff Nant-y-caws gan nad oedd unman i'w gadael ar y safle.








Y dull rheoli sydd ar waith ar gaeau Heol Gwili

## 3.3. Ymgysylltu

**3.3.1.** Dylai'r Cyngor:

- sicrhau bod gwefan y Cyngor yn cynnwys gwybodaeth berthnasol sy’n egluro sut mae’r Cyngor yn rheoli tir ar gyfer pryfed peillio (gan gynnwys adran gyda chwestiynau cyffredin) a dolenni sy’n darparu gwybodaeth ar gyfer eraill a hoffai wneud hynny.
- esbonio beth rydym yn ei wneud i gymunedau a pham. Gofyn i gymunedau nodi ardaloedd i'w rheoli ar gyfer pryfed peillio yn eu hardal.
- hyrwyddo’r dyfodol ar gyfer pryfed peillio i roi anogaeth ar gyfer gwaith cymunedol ac mewn partneriaeth ar brosiectau sy’n ymwneud â phryfed peillio.
- ceisio gweithio gydag awdurdodau lleol eraill sydd eisoes yn gweithredu dros bryfed peillio yng Nghymru a dysgu o'u profiad.
- gwneud gwaith ymgysylltu ac allgymorth cymunedol neu weithio mewn partneriaeth ar y rhain.
- cynnal cyswllt ag ysgolion neu weithio mewn partneriaeth i wneud hynny.
- sicrhau bod prosiectau strategol eraill, e.e. Pentre Awel yn Llanelli, yn mabwysiadu egwyddor y cynllun.

**3.3.2.** Er mwyn gweithredu'r Polisi hwn yn llwyddiannus a chyflwyno camau gweithredu a fydd yn cefnogi pryfed peillio, mae'r Cyngor wedi llunio cynllun gweithredu (**Atodiad 1**) i sefydlu'r dull rheoli hwn ar draws ein hystâd gyda'r disgwyliad y bydd 'cleientiaid' yn ceisio ymgorffori dulliau o reoli'r tir sydd o dan eu rheolaeth ar gyfer pryfed peillio trwy dorri'r ardaloedd hynny â thoriad Neithdar neu Ddôl.

## Hyfforddiant

Bydd hyfforddiant perthnasol ar gyfer swyddogion Cynnal a Chadw Tiroedd yn cael ei ddatblygu gan edrych ar reoli mannau gwyrdd yn ystâd y cyngor gan gynnwys y dulliau rheoli glaswelltir yn y Strategaeth hon. Yn ogystal, gellir cynnal sesiwn gyda swyddogion o adrannau perthnasol eraill (e.e. tai) fel eu bod yn deall y gwahanol ddulliau rheoli a'u buddion. .

Bydd angen hyfforddiant perthnasol ar gyfer swyddogion sy'n defnyddio'r peiriannau torri a chasglu Grillo.

# 4. Gweithredu a Monitro

## 4.1. Adnoddau

**4.1.1.** Mae'n bwysig sylweddoli nad yw'r dull o reoli glaswelltir ar gyfer pryfed peillio yn ymwneud â chefnu ar safle neu arbed arian. Mae angen rheolaeth weithredol er mwyn i flodau gwyllt brodorol a'u pryfed peillio ffynnu.

**4.1.2.** Gall fod yna gost ynghlwm wrth dorri *a* chasglu a gwaredu'r glaswellt wedi'i dorri os na ellir ei adael fel pentyrrau cynefin ar y safle. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i safleoedd tai.

**4.1.3.** Gwaredu gwastraff - os oes *rhaid* mynd ag ef i safle gwastraff gwyrdd bydd yna gost.

**4.1.4.** Cyfleusterau compostio – dylid ystyried creu cyfleusterau compostio newydd mewn safleoedd sy'n eiddo i Gyngor Sir Caerfyrddin i dderbyn gwastraff gwyrdd (toriadau glaswellt a gwrychoedd, tocio acati) gan y gallai hyn leihau'r gost o fynd â thoriadau i safleoedd gwastraff gwyrdd a darparu ffynhonnell leol o gompost/gwella pridd heb fawn.

**4.1.5.** Er mwyn gallu cyflawni'r polisi hwn, rhaid i ni sicrhau bod gennym yr offer cywir yn y mannau cywir i gynnig y gwasanaeth hwn i bawb sy'n gyfrifol am dir Cyngor Sir Caerfyrddin.

**4.1.6.** Gwnaed cais am gyllid yn 2021/22 a 2023/24, a chafwyd grant Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru am dri pheiriant torri a chasglu 'ride-on' ac un peiriant torri a chasglu sy'n cael ei dynnu y tu ôl i dractor.

**4.1.7.** Darparwyd cymhariaeth cost ddrafft yn **Atodiad 2**

## 4.2. Monitro ac adrodd

**4.2.1.** Dylai'r meysydd gwasanaeth a all gyflawni'r Strategaeth ar gyfer Rheoli Glaswelltir i Bryfed Peillio ar Ystâd Cyngor Sir Caerfyrddin gynnwys y camau hyn yn eu Cynlluniau Busnes Is-adrannol / Adrannol ac adrodd arnynt.

**4.2.2.** Bydd elfennau o'r Cynllun yn cael eu cynnwys ym Mlaen-gynlluniau Deddf yr Amgylchedd Cyngor Sir Caerfyrddin - mae'r cynlluniau hyn yn rhedeg am 3 blynedd, e.e. Ionawr 2023 i Ragfyr 2025. Caiff y camau gweithredu yn y cynllun hwn eu hadrodd yn ffurfiol i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd y cyfnod o dair blynedd.

**4.2.3.** Daw'r Strategaeth o fewn portffolio'r aelod cabinet dros Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd. Bydd hefyd yn effeithio ar aelodau'r Cabinet sy'n gyfrifol am Dai, Addysg, Eiddo (unrhyw adran sy'n gyfrifol am laswelltir amwynder) ac ati a Chynnal a Chadw Tiroedd.

Gan fod y peiriannau wedi'u hariannu gan gyllid grant Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru yna bydd adroddiadau rheolaidd yn ofynnol gan Lywodraeth Cymru.

## ATODIAD 1. CYNLLUN GWEITHREDU DRAFFT AR GYFER RHEOLI GLASWELLTIR AMWYNDER CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

| | Camau Gweithredu | MESURAU a CHERRIG MILLTIR | Gan bwy? Swyddog Cyfrifol | Erbyn Pryd |
|---|---|---|---|---|
| | **Pwrpas: cynyddu arwynebedd ac ehangder cynefin glaswelltir llawn blodau gwyllt a reolir gan y Cyngor ar laswelltir amwynder.** | | | |
| | **CAMAU GWEITHREDU AR GYFER RHEOLI** Glaswelltir i Bryfed Peillio ar Ystâd Cyngor Sir Caerfyrddin | | | |
| **1** | **AROLWG.** Mae angen asesiad o'r ystâd laswelltir ar draws y sir o dan bortffolios amrywiol y cyngor. Bydd hyn yn helpu i nodi'r drefn rheoli glaswelltir briodol ar gyfer pob safle er mwyn gallu datblygu adroddiadau costio, adroddiadau meintiol, ac i gyd-fynd â'r rhaglen trawsnewid digidol rheoli tirwedd. | Gweithredu system gyfrifiadurol Alloy | Gary Baxter Cynnal a Chadw Tiroedd | 2025 |
| **2** | **AROLWG.** Datblygu offeryn syml i asesu cyfoeth rhywogaethau'r glaswelltiroedd y mae'r Cyngor yn eu rheoli i lywio/blaenoriaethu rheolaeth yn y dyfodol a monitro newid | Offeryn wedi'i ddatblygu a'i dreialu gyda chydweithwyr. | Isabel Macho<br><br>Cadwraeth Wledig | Mehefin 2025 |
| **3** | **CODI YMWYBYDDIAETH:** Sicrhau bod gwefan y Cyngor yn cynnwys gwybodaeth berthnasol ar yr arferion gorau wrth reoli tir ar gyfer pryfed peillio gyda dolenni sy'n darparu gwybodaeth ar gyfer eraill a hoffai wneud yr un peth. | Diweddaru'r tudalennau gwe gan gynnwys dolenni i Gwestiynau Cyffredin | Isabel Macho<br><br>Cadwraeth Wledig | Mawrth 2025 |
| **4** | **CODI YMWYBYDDIAETH:** Llunio Cwestiynau Cyffredin ar gyfer y cyhoedd ar y polisi ar gyfer rheoli glaswelltir amwynder i'w roi i swyddogion gofal cwsmeriaid ac i'w gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. | Diweddaru'r tudalennau gwe gan gynnwys dolenni i Gwestiynau Cyffredin | Isabel Macho Cadwraeth Wledig/D Gary Baxter Cynnal a Chadw Tiroedd | Mawrth 2025 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **5** | **CODI YMWYBYDDIAETH** Gofyn i'r cyhoedd/cynghorwyr awgrymu safleoedd lle gellid lleihau'r torri yn rhesymol | Ymgysylltu ag aelodau'r Cabinet ar gyfer Tai ac Addysg, Cynnal a Chadw Tiroedd ac ati a gweithio gyda Cyfathrebu | Isabel Macho/Matthew Collinson Cadwraeth Wledig<br><br>Swyddogion Tai<br><br>Cyfathrebu Cyngor Sir Caerfyrddin | Mehefin 2025 |
| **6** | **CODI YMWYBYDDIAETH / RHEOLI:** Cymryd rhan yn ymgyrch Mai Di Dor Plantlife ar safleoedd dethol Cyngor Sir Caerfyrddin a'i hyrwyddo i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus /Cynghorau Tref a Chymuned/Ysgolion. | Ymgysylltu â grwpiau allweddol | Isabel Macho/Matthew Collinson Cadwraeth Wledig<br><br>Swyddogion Tai<br><br>Cyfathrebu Cyngor Sir Caerfyrddin | Yn flynyddol |
| **7** | **Cytundeb Lefel Gwasanaeth** – Cynnal a Chadw Tiroedd i ddiweddaru'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth i adlewyrchu opsiynau rheoli newydd – gyda chostau | Cytundebau Lefel Gwasanaeth Diwygiedig | D Gary Baxter / Cynnal a Chadw Tiroedd | 2025 |
| **8** | **RHEOLI**: **Cynnal a chadw tiroedd** i nodi safleoedd/ardaloedd o fewn safleoedd mwy o dan eu rheolaeth a fydd yn cael eu rheoli ar gyfer Pryfed Peillio drwy ddefnyddio TORIAD NEITHDAR a/neu DORIAD DDÔL<br>Bydd y rhain wedi paratoi cynlluniau torri syml ac arwyddion. | 74 erbyn diwedd 2024 | Eiddo / Cynnal a Chadw Tiroedd | 2025 |
| **9** | **RHEOLI**: Nodi tir o amgylch **adeiladau'r Cyngor** a fydd (gan ystyried cyfyngiadau eraill) yn cael eu rheoli ar gyfer pryfed peillio gan ddefnyddio TORIAD NEITHDAR a/neu DORIAD DÔL<br>Bydd y rhain wedi paratoi cynlluniau torri syml ac arwyddion. | ?? erbyn diwedd 2024 | Cynnal a Chadw Eiddo/Tiroedd | 2025 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **9** | **RHEOLI**: Nodi tir ym mhortffolio **Eiddo'r** Cyngor a fydd (gan ystyried cyfyngiadau eraill) yn cael eu rheoli ar gyfer pryfed peillio gan ddefnyddio TORIAD NEITHDAR a/neu DORIAD DÔL<br>Bydd y rhain wedi paratoi cynlluniau torri syml ac arwyddion. | ?? erbyn diwedd 2024 | Cynnal a Chadw Eiddo/Tiroedd | 2025 |
| **10** | **RHEOLI: Tai** (gan ymgynghori â phreswylwyr) i nodi safleoedd addas sydd ag ardaloedd y gellid eu rheoli ar gyfer pryfed peillio gan ddefnyddio TORIAD NEITHDAR a/neu DORIAD DÔL<br><br>Bydd y rhain wedi paratoi cynlluniau torri syml ac arwyddion. | erbyn diwedd 2025 | Tai / Cynnal a Chadw Tiroedd / Cadwraeth Wledig | 2025 |
| **11** | **RHEOLI: Canolfannau Tai Gwarchod** (gan ymgynghori â phreswylwyr) i nodi safleoedd addas sydd ag ardaloedd y gellid eu rheoli ar gyfer pryfed peillio gan ddefnyddio TORIAD NEITHDAR a/neu DORIAD DÔL<br><br>Bydd y rhain wedi paratoi cynlluniau torri syml ac arwyddion. | erbyn diwedd 2024 | Tai / Cynnal a Chadw Tiroedd / Cadwraeth Wledig | 2025 |
| **12** | **RHEOLI: Gofal Dydd** (gan ymgynghori â phreswylwyr) i nodi safleoedd addas sydd ag ardaloedd y gellid eu rheoli ar gyfer pryfed peillio gan ddefnyddio TORIAD NEITHDAR a/neu DORIAD DÔL<br><br>Bydd y rhain wedi paratoi cynlluniau torri syml/arwyddion. | erbyn diwedd 2024 | Tai / Cynnal a Chadw Tiroedd / Cadwraeth Wledig | 2025 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **13** | **RHEOLI** Safleoedd Compostio – asesu dichonoldeb cynyddu nifer y safleoedd compostio yn y sir er mwyn lleihau'r angen i fynd â gwastraff gwyrdd i Nant-y-caws a defnyddio compost yn fewnol. | Paratoi Strategaeth gompostio | Cynnal a Chadw Tiroedd / Gwastraff | 2025 |

**Atodiad 2. Cymharu costau**

Er mwyn helpu i ddeall y goblygiadau ariannol sydd i newid arferion rheoli dyma enghreifftiau o nifer fach o safleoedd gan gymharu â thorri safle yn ôl yr opsiynau canlynol:

**Toriad amwynder** (bob 2 wythnos a glaswellt yn cael ei adael ar y ddaear)

**Toriad neithdar** (bob 6 wythnos) – torri a chasglu:

(a) Cael ei adael ar y safle fel pentyrrau cynefin

(b) Cael ei gludo i safle gwastraff gwyrdd

**Toriad dôl** (ddwywaith y flwyddyn – gwanwyn a diwedd yr haf) – torri a chasglu

(a) Cael ei adael ar y safle fel pentyrrau cynefin

(b) Cael ei gludo i safle gwastraff gwyrdd

*Mae hyn yn seiliedig ar y gost o fynd â thoriadau i Cwm Environmental sef* ***£35****.*


Defnyddiwyd detholiad o bedwar safle er mwyn cael cymhariaeth cost ddrafft, dewiswyd safleoedd i adlewyrchu daearyddiaeth amrywiol Sir Gaerfyrddin gan ystyried y rhaniad Trefol-Gwledig i sicrhau bod cymhariaeth cysylltedd â safleoedd gwaredu yn ogystal ag amseroedd teithio i'r safle, defnydd tir amrywiol a chyfyngiadau safle-benodol i gyd yn cael eu hystyried.

Mae pob safle wedi'i arfarnu'n unigol ac mae cynnig rheoli tir gorau posibl wedi'i ddatblygu a'i brisio yn unol â hynny. Mae'r cynnig wedi ystyried defnydd safleoedd megis ardaloedd cymdeithasol ar gyfer yr henoed, lleiniau chwaraeon ar gyfer ysgolion yn ogystal ag ystodau o lwybrau cerdded ar gaeau agored, mae'r arfarniad hefyd wedi ystyried gofynion gweithredol a chyfyngiadau safleoedd.

*Yr opsiwn fyddai'n cael ei ffafrio fyddai gweithio ar safleoedd lle gellir gadael y toriadau mewn ardaloedd disylw neu ardaloedd compostio dynodedig. Ar gyfer rhai safleoedd efallai y bydd y cleient eisiau i'r toriadau gael eu gwaredu felly mae'r gost o fynd â nhw i'r Safle Gwastraff Gwyrdd yn dod yn berthnasol bryd hynny.*

## *Maes Llewelyn, Castellnewydd Emlyn (*


## *Cartref Gofal – 22 milltir i'r Safle Gwastraff Gwyrdd)*




| **Allwedd** | **Math o Doriad** | **Offer** | **Mynychder** |
|---|---|---|---|
| | Neithdar | Grillo | 4 Toriad |
| | Amwynder | 'Ride On' | 12 Toriad |
| | Amwynder | Strimio | 12 Toriad |
| | Amwynder | Torrwr Gwthio | 12 Toriad |

## *Ysgol Bryngwyn, Llanelli.*


## *2.5 milltir i'r Safle Gwastraff Gwyrdd*




| **Allwedd** | **Math o Doriad** | **Offer** | **Mynychder** |
|---|---|---|---|
| | Dôl | Wiedermann | 2 Doriad |
| | Amwynder | 'Ride On' | 12 Toriad |
| | Amwynder | Strimio | 12 Toriad |
| | Amwynder | Tractor | 12 Toriad |

## *Tŷ Plas Isaf, Llangennech, Llanelli (Cartref Gofal)*


## *4.3 milltir i'r Safle Gwastraff Gwyrdd*




| Allwedd | Math o Doriad | Offer | Mynychder |
|---|---|---|---|
| (coch) | Neithdar | Grillo | 4 Toriad |
| (pinc) | Amwynder | 'Ride On' | 12 Toriad |
| (gwyrddlas) | Amwynder | Strimio | 12 Toriad |

## *Cae Llanerch, Llanelli (Tai)*

## *2 milltir i'r Safle Gwastraff Gwyrdd*




| Allwedd | Math o Doriad | Offer | Mynychder |
|---|---|---|---|
| | Dôl | Wiedermann | 2 Doriad |
| | Amwynder | 'Ride On' | 12 Toriad |
| | Amwynder | Strimio | 12 Toriad |

## COSTAU BLYNYDDOL YN SEILIEDIG AR Y MATH O REOLAETH @ £35/t

| | Bioamrywiaeth | | Cost bresennol | % y newid o'r gost bresennol (wedi'i dalgrynnu i fyny / i lawr) | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Lleoliad** | **Ei adael ar y safle** | **Mynd ag e i'r Tip** | **Toriad amwynder** | **Ei adael ar y safle** | **Mynd ag e i'r Tip** |
| Maes Llewelyn | £3,995.32 | £5,055.84 | £4,276.08 | -7 | +15% |
| | 4 Neithdar 12 Amwynder | 4 Neithdar 12 Amwynder | 12 Amwynder | | |
| Ysgol Bryngwyn | £9,771.02 | £11,216.92 | £10,250.04 | -4.9 | +8.6 |
| | 2 Dôl 12 Amwynder | 2 Dôl 12 Amwynder | 12 Amwynder | | |
| Tŷ Plas Isaf | £3,236.12 | £4,306.96 | £3,883.20 | -20 | +9.8 |
| | 4 Neithdar 12 Amwynder | 4 Neithdar 12 Amwynder | 12 Amwynder | | |
| Cae Llanerch | £1,780.68 | £3,022.68 | £2911.08 | -63 | +3.7 |
| | 2 Dôl 12 Amwynder | 2 Dôl 12 Amwynder | 12 Amwynder | | |

## CASGLIAD

Yn seiliedig ar y 4 ardal beilot, mae'r costau'n dangos y gallai toriad bioamrywiaeth (toriad neithdar/dôl) fod 5-60% yn rhatach na'r costau presennol os gellir gadael y toriadau ar y safle. Fodd bynnag, lle mae angen mynd â thoriadau i ffwrdd i'r safle Gwastraff Gwyrdd gall fod 5-15% yn ddrytach.

Mae yna newidyn ar gyfer pob safle, gan gynnwys teithio i'r safle o'r depo. O leihau'r toriadau amwynder ar y safleoedd toriad neithdar a thoriad dôl lle mae'n rhaid cynnal a chadw ymylon a llwybrau, mae'n debygol y byddai'r costau yn cael eu gostwng ymhellach. Efallai y bydd hyn yn bosibl ar rai safleoedd.

Rydym yn cynnig felly ein bod yn gwneud y mwyaf o'r potensial i gadw toriadau gwastraff ar y safle lle bo hynny'n ymarferol, a fydd yn lleihau dwysedd carbon y dull gweithredu oherwydd gostyngiad mewn cludiant.